Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai (Adolygiad Dilynol)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan


**Blwyddyn archwilio:** 2015

**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 439A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gabrielle Smith, Delyth Lewis a Carol Moseley.

# Cynnwys

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi gwneud cynnydd da yn gyffredinol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion i wella gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae angen yn awr i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar gryfhau prosesau sgrinio a dogfennu o ran maeth a'r dulliau o gyflwyno adroddiadau i'r bwrdd, yn ogystal â sicrhau bod pob un o ardaloedd y cleifion yn cael ei pharatoi ar gyfer amser bwyd a bod cleifion yn cael cymorth prydlon gyda bwyta.


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | |
| Cefndir | 4 |
| Ein prif ganfyddiadau | 5 |
| Argymhellion | 6 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Mae'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion yn gwella ond mae angen cryfhau prosesau sgrinio a dogfennu | 8 |
| Mae lle i wella rhai agweddau ar y profiad a geir adeg prydau bwyd | 15 |
| Mae dulliau rheoli costau a systemau TG yn cael eu defnyddio i reoli gwasanaethau arlwyo ac er bod costau'n gymaradwy ar y cyfan, mae costau bwyd y gwasanaeth arlwyo i gleifion yn cynyddu | 19 |
| Mae'r trefniadau ynghylch gwaith monitro a throsolwg gweithredol yn gadarn ond mae angen cryfhau'r dull o gyflwyno adroddiadau i'r bwrdd ar sicrwydd | 26 |
| **Atodiadau** | |
| Dull archwilio | 29 |
| Argymhellion cenedlaethol a lleol | 31 |

# Adroddiad cryno

## Cefndir

**1.** Mae gwasanaethau arlwyo ysbytai yn rhan hanfodol o'r gofal a roddir i gleifion o gofio bod prydau bwyd maethlon, o ansawdd da yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu cleifion i adsefydlu a gwella. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gamau cadarn i gynllunio a chydgysylltu amrywiaeth o brosesau gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Mae'n rhaid i'r holl grwpiau staff amrywiol sy'n rhan o'r prosesau hyn gyfathrebu'n dda â'i gilydd, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, dietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.

**2.** Mae angen i statws maethol cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n gywir, a dylid gwneud trefniadau i helpu cleifion i fwynhau eu prydau bwyd mewn amgylchedd sy'n gydnaws â bwyta. Dylai hyn arwain at y canlyniad dymunol, sef gwasanaeth arlwyo sy'n hyblyg, yn gost-effeithiol ac yn darparu dewis da o brydau bwyd maethlon a all ddiwallu anghenion deietegol penodol cleifion.

**3.** Yn 2010, gwnaethom gynnal archwiliadau lleol o wasanaethau arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai ledled Cymru, yn dilyn y gwaith a wnaed gan y Comisiwn Archwilio yn 2002[1]. Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad[2], a wnaeth grynhoi canfyddiadau'r gwaith hwn. Daeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod trefniadau arlwyo a gofal maeth a ddarperir i gleifion wedi gwella'n gyffredinol a bod boddhad cleifion yn dal i fod yn uchel. Fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod arfer da cydnabyddedig yn cael ei weithredu'n ehangach, yn enwedig mewn perthynas â sgrinio maethol a chynllunio gofal, ac i sicrhau bod cyn lleied o wastraff bwyd â phosibl.

**4.** Ar ôl i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol gael ei gyhoeddi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Bwyd a Hylif i Gleifion Mewnol mewn Ysbytai** yn yr hydref yn 2011. Mae'r safonau hyn yn disodli fframwaith arlwyo a maeth 2002 ac yn rhoi canllawiau technegol i arlwywyr, deietegwyr a staff nyrsio sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion maethol cleifion.[3] Mae'r safonau hefyd yn nodi'r cynnwys maethol sydd ei angen er mwyn diwallu anghenion amrywiol y boblogaeth ysbyty. Roedd yn ofynnol i gyrff y GIG gyrraedd y safonau erbyn mis Ebrill 2013.

**5.** I gefnogi'r broses o gyflwyno'r safonau maeth ac arlwyo, cydweithiodd arlwywyr a deietegwyr ledled Cymru i lunio Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan, a lansiwyd ddiwedd mis Ionawr 2013. Mae'r Fframwaith yn cynnwys cronfa ddata o eitemau bwydlen cytûn, set safonol o ryseitiau a dulliau coginio, dadansoddiad maethol o bob eitem ar y fwydlen i sicrhau bod y rhain yn cyrraedd y safonau maeth ac

---

[1] Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, **Portffolio Ysbytai Acíwt – Adolygiad o ganfyddiadau cenedlaethol ar arlwyo**, Mawrth 2002

[2] Swyddfa Archwilio Cymru, **Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**, Mawrth 2011

[3] Mae'r safonau maeth ac arlwyo yn anelu at ddiwallu anghenion maethol cleifion a all fwyta ac yfed. Nid yw'r safonau hyn yn gymwys i gleifion a gaiff maeth parenterol neu ymysgarol, hynny yw maetholion a gyflwynir yn fewnwythiennol neu'n uniongyrchol i'r system gastro-berfeddol.

arlwyo, ac amrywiaeth o fyrbrydau sy'n cydymffurfio â'r safonau ac a gaffaelir drwy gontractau Cymru gyfan.

**6.** Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi parhau i gadw llygad barcud ar y materion a godwyd gan waith yr Archwilydd Cyffredinol, gan gymryd tystiolaeth gan nifer o dystion a chyhoeddi ei adroddiad ei hun ym mis Chwefror 2012[4]. Yn 2014, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol ymrwymiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai'n gwneud gwaith dilynol priodol er mwyn monitro'r ffordd y mae cyrff y GIG wedi gweithredu ei argymhellion lleol a chenedlaethol. Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys ystyried canfyddiadau unrhyw waith dilynol a wnaed o fewn cyrff y GIG ers 2010.

# Ein prif ganfyddiadau

**7.** Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015, gwnaethom waith dilynol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) er mwyn asesu i ba raddau yr oedd wedi gweithredu argymhellion cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch sicrhau gwelliannau o ran diwallu anghenion maethol cleifion a'u profiadau adeg prydau bwyd, rheoli costau arlwyo a chynllunio, monitro a chyflwyno adroddiadau[5]. Gwnaethom hefyd asesu i ba raddau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed fel rhan o'r archwiliad lleol yn 2010.

**8.** Daethom i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn gyffredinol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion i wella gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae angen yn awr i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar gryfhau prosesau sgrinio a dogfennu o ran maeth a'r dulliau o gyflwyno adroddiadau i'r bwrdd, yn ogystal â sicrhau bod pob un o ardaloedd y cleifion yn cael ei pharatoi ar gyfer adeg prydau bwyd a bod cleifion yn cael cymorth prydlon gyda bwyta. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion yn gwella ond mae angen cryfhau prosesau sgrinio a dogfennu:
  - Mae cleifion yn cael eu sgrinio i ganfod problemau maethol ond mae'r wybodaeth sgrinio sydd wedi'i dogfennu yn ddarniog ac yn anghyflawn.
  - Mae'r graddau y cydymffurfir â'r llwybr gofal maethol yn cael eu monitro fel mater o drefn ond mae archwiliadau cydymffurfio yn dangos bod lle i wella.
  - Mae eitemau'r fwydlen yn cael eu hasesu o ran eu maeth drwy fframwaith bwydlenni Cymru gyfan ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gydymffurfio'n llwyr.
  - Mae cleifion yn gallu cael gafael ar fwyd a diodydd 24 awr o'r dydd ac mae'r graddau y cydymffurfir yn cael eu monitro'n rheolaidd.
  - Mae gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion am yr hyn y dylent ei ddisgwyl yn yr ysbyty ar gael ond nid yw'n cael ei dosbarthu'n eang.

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**, Chwefror 2012

[5] Nodir ein dull archwilio yn Atodiad 1. Mae'r gwaith archwilio yn ymwneud yn benodol â chleifion mewnol sy'n oedolion a all fwyta ac yfed yn normal.

- Mae lle i wella rhai agweddau ar y profiad a geir adeg prydau bwyd:
  - Mae cleifion yn gadarnhaol yn gyffredinol ynghylch gwasanaethau bwyd.
  - Nid yw pob claf yn cael cymorth prydlon adeg prydau bwyd ac mae rhagor i'w wneud i baratoi amgylchedd y ward cyn gwasanaethau prydau.
  - Mae egwyddorion amser bwyd a ddiogelir yn cael eu gweithredu i raddau cynyddol ond mae rhai ysbytai nad ydynt yn cydymffurfio'n llwyr hyd yn hyn.
- Mae dulliau rheoli costau a systemau TG yn cael eu defnyddio i reoli gwasanaethau arlwyo ac er bod costau'n cymharu'n ffafriol yn gyffredinol, mae costau bwyd y gwasanaeth arlwyo i gleifion yn codi:
  - Mae dulliau rheoli costau a systemau TG yn cael eu defnyddio i reoli'r gwasanaeth ac er bod costau prydau cleifion yn gymaradwy â chyfartaledd Cymru, mae costau bwyd y gwasanaeth arlwyo i gleifion yn cynyddu.
  - Mae gwastraff bwyd yn cael ei archwilio'n rheolaidd ac mae'r gwastraff islaw'r targed cenedlaethol, ond mae'r gwaith monitro ar lefel y ward yn anghyson.
  - Mae gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn creu colled fach; mae'r bwlch rhwng incwm a chostau yn lleihau ac mae ymhlith y rhai lleiaf yng Nghymru.
- Mae'r trefniadau ynghylch gwaith monitro a throsolwg gweithredol yn gadarn ond mae angen cryfhau'r dull o gyflwyno adroddiadau i'r bwrdd ar sicrwydd:
  - Mae'r strwythurau trosolwg a chraffu yng nghyswllt gwasanaethau arlwyo a maeth yn parhau'n gadarn ar lefelau gweithredol ac is-bwyllgor.
  - Mae perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd ond nid yw'r dull o gyflwyno adroddiadau i'r bwrdd yn gynhwysfawr ac mae'n dibynnu ar yr Archwiliad Hanfodion Gofal blynyddol.

**9.** Mae canfyddiadau manwl y gwaith archwilio wedi'u crynhoi ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

# Argymhellion

**10.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gyflawni 35 o'r 42 o argymhellion a nodwyd yn flaenorol yn ein hadroddiadau cenedlaethol a lleol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar weithredu'r argymhellion sy'n weddill pan nodir bod y cynnydd a wneir ar y trywydd iawn ond nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau, neu pan ystyriwn na wnaed digon o gynnydd, neu nad oes dim cynnydd. Nodir yr argymhellion hyn yn Arddangosyn 1. Ceir rhestr lawn o'r argymhellion cenedlaethol a lleol, ynghyd â statws pob argymhelliad, yn Atodiad 2.

## Arddangosyn 1: Argymhellion cenedlaethol a lleol i'w cyflawni o hyd ym mis Gorffennaf 2015

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| **Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu** | |
| A1b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG ddefnyddio'r canlyniadau a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau archwilio lleol fel sail dros sicrhau eu bod yn gweithredu Llwybr Gofal Maeth Cymru gyfan yn effeithiol; yn benodol mae'n rhaid iddynt sicrhau bod prosesau sgrinio maethol yn nodi'n effeithiol bob claf sydd â phroblemau maeth, neu sy'n wynebu risg o'u datblygu, a bod cynlluniau gofal a gweithgareddau monitro priodol yn cael eu sefydlu **(cenedlaethol)**. |
| **Gwella profiad cleifion o amser bwyd** | |
| A3c | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn parhau i gyflwyno'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu i gymaint o wardiau â phosibl, gan gyfleu ei bwysigrwydd i bob grŵp staff perthnasol sy'n gweithio yn yr ysbyty, ac adolygu cydymffurfiaeth â'r polisi'n rheolaidd **(cenedlaethol)**. |
| A10 | Cyflwyno amserau bwyd wedi'u diogelu ar bob ward lle byddai hynny'n briodol a sefydlu trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth **(lleol)**. |
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | |
| A7a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG bennu polisïau prisio a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill costau o leiaf, neu, os nad ydynt yn gwneud hynny, bod hynny o ganlyniad i bolisi cymorthdalu bwriadol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau **(cenedlaethol)**. |
| A7b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG fonitro incwm a gwariant ar wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn perfformio'n ariannol yn ôl y disgwyl ac nad oes diffygion ariannol annerbyniol **(cenedlaethol)**. |
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | |
| A10a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG ddatblygu ffordd fwy cynhwysfawr o gofnodi perfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion i'r Bwrdd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am weithredu'r llwybr gofal maeth a data perfformiad ar gostau gwasanaethau i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, gwastraff bwyd, ac adborth gan gleifion a'u perthnasau; dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai wneud defnydd priodol o ddata meincnodi EFPMS **(cenedlaethol)**. |
| A10b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG goladu gwybodaeth o sgrinio maethol yn systematig am nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth er mwyn deall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwyo a maeth i ddiwallu anghenion y cleifion hyn **(cenedlaethol)**. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion yn gwella ond mae angen cryfhau prosesau sgrinio a dogfennu

**11.** Yn 2010, roedd llawer o ysbytai yng Nghymru wedi gwella eu trefniadau er mwyn sicrhau bod anghenion maethol cleifion yn cael eu diwallu ond roedd gwybodaeth yn ddarniog ac nid oedd yn peri bod modd cynnal trosolwg cyflym o broblemau maethol cleifion nac adolygu statws maethol yn hawdd. Gallai prinder dogfennaeth nyrsio safonol i gofnodi gwybodaeth asesu allweddol fod wedi cyfrannu at ansawdd amrywiol cofnodion nyrsio. Yn ogystal, nid oedd holl gyrff y GIG yn monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol yn rheolaidd.

**12.** Yn y Bwrdd Iechyd, roedd lle i wella'r graddau y cydymffurfiwyd â'r llwybr gofal maethol. Nid oedd asesiadau maethol bob amser yn cael eu cwblhau cyn pen 24 awr, nid oedd staff nyrsio yn hyderus o reidrwydd o ran defnyddio'r dull sgrinio maethol, ac nid oedd cynlluniau gofal maethol bob amser ar waith. Bryd hynny, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu trefniadau monitro i asesu'r graddau y cydymffurfiwyd â'r llwybr gofal maethol ac effeithiolrwydd y broses o adolygu siartiau bwyd.

**13.** Canfu Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol diweddar gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar nifer o wardiau yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall nifer o faterion yng nghyswllt gofal maethol. Yn benodol, nid bob amser yr oedd sgoriau'r risg o ran maeth yn cael eu cofnodi neu yr oedd iechyd y geg yn cael ei asesu. Yn achos y cleifion hynny y nodwyd eu bod yn wynebu risg, nid oedd cynlluniau gofal bob amser yn adlewyrchu'r cymorth yr oedd ei angen i fwyta ac i yfed, tra bo'r bwyd a'r hylif a gymerwyd yn cael eu cofnodi mewn modd anghyson. Pan oedd dulliau ar waith i ganfod pa gleifion a oedd yn wynebu risg, nid oedd y rhain bob amser yn cael yr effaith a ddymunwyd.

### Mae cleifion yn cael eu sgrinio i ganfod problemau maethol ond mae'r wybodaeth sgrinio sydd wedi'i dogfennu yn ddarniog ac yn anghyflawn

**14.** Gwnaethom adolygu cyfres o nodiadau achos ar bob un o'r pedair ward y buom yn ymweld â hwy fel rhan o'r archwiliad hwn, sef cyfanswm o 20 o nodiadau achos. Gwnaethom asesu a oedd staff nyrsio yn cynnal proses sgrinio maethol ar gyfer cleifion wrth eu derbyn i'r ysbyty ac yn ei hailadrodd yn wythnosol o leiaf, yn ogystal ag ansawdd y broses sgrinio maethol. Gwnaethom ganfod bod staff nyrsio yn cynnal proses sgrinio maethol ar gyfer cleifion fel mater o drefn gan ddefnyddio adnodd sgrinio maethol MUST[6] a'u bod yn pwyso cleifion cyn pen 24 awr ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty.

[6] Cafodd yr Adnodd Sgrinio Cyffredinol ar gyfer Diffyg Maeth (MUST, *Malnutrition Universal Screening Tool*) ei gynllunio gan y Grŵp Cynghori ar Ddiffyg Maeth, sy'n rhan o'r Gymdeithas Brydeinig Maeth drwy'r Gwythiennau a'r Ymysgaroedd, i fod yn ffordd effeithiol o ganfod pa oedolion (yn arbennig yr henoed) na chânt ddigon o faeth,

**15.** Mae safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan yn ei gwneud yn glir bod iechyd y geg a chyfathrebu yn rhan o ofal maethol. Dywedodd staff y wardiau wrthym nad yw adnodd Cymru gyfan ar gyfer Asesu Risg o ran Iechyd y Geg yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn er gwaethaf pwysigrwydd deintiad da ar gyfer bwyta a mwynhau bwyd. Canfu ein hadolygiad fod gwybodaeth am iechyd y geg wedi'i chofnodi mewn 2 o'r 20 o nodiadau achos, tra bo 18 o'r 20 o nodiadau achos yn cofnodi anawsterau cyfathrebu. Dengys canfyddiadau archwiliad Hanfodion Gofal 2014, a gwblhawyd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2014, fod dwy ran o dair o'r cleifion â chofnod o fod wedi cael asesiad ynghylch iechyd y geg.

**16.** Nid oedd dogfennaeth yr asesiadau nyrsio yn hawdd i'w defnyddio ac yn aml roedd y wybodaeth asesu yn anghyflawn. Roedd bylchau yn y wybodaeth am yr awydd am fwyd, lefelau bwyta ac yfed arferol, neu'r angen am ddeiet arbennig neu therapiwtig, sef ffactorau y byddem yn disgwyl eu gweld fel rhan o'r broses o dderbyn a sgrinio. Gall hyn fod i'w briodoli'n rhannol i ddiffyg ysgogiadau i nodi disgrifiad mwy manwl o'r broblem a'r cymorth sydd ei angen, a fformat gwahanol y ddogfennaeth dderbyn sy'n cael ei defnyddio gan ddibynnu ymhle y cafodd cleifion eu derbyn i'r ysbyty. Dangosodd cofnodion o gyfarfodydd y Grwpiau Buddiannau Bwyd nad yw sgoriau MUST yn cael eu cofnodi fel mater o drefn yn achos cleifion sy'n cael eu derbyn drwy'r adran ddamweiniau ac achosion brys a'r uned derbyniadau meddygol. Canfu ein hadolygiad o'r nodiadau achos yr hyn a ganlyn:

- er bod pwysau'n cael eu cofnodi yn achos pob claf, nid oedd taldra wedi'i gofnodi yn achos tri chlaf, er bod y nodiadau achos yn cofnodi mynegai crynswth corfforol (BMI);
- nid oedd saith o'r 20 o nodiadau achos yn dangos a oedd gallu claf i lyncu wedi cael ei asesu, hyd yn oed ar y wardiau lle yr oedd staff nyrsio wedi'u hyfforddi i gynnal asesiadau llyncu;
- er bod Cam 2 adnodd MUST yn nodi sgôr am golli pwysau na fwriadwyd eu colli, nid oedd 8 o'r 20 o nodiadau achos yn cofnodi gwybodaeth am faint neu natur unrhyw bwysau a gollwyd yn anfwriadol;
- nid oedd dau o'r 20 o nodiadau achos yn cofnodi awydd arferol y claf am fwyd;
- nid oedd wyth o'r 20 o nodiadau achos yn cofnodi lefelau bwyta ac yfed arferol y claf, tra bo un nodyn achos nad oedd wedi cofnodi a oedd gan y claf unrhyw ofynion deietegol arbennig neu therapiwtig neu gyfyngiadau oherwydd alergeddau; ac
- nid oedd tri o'r 20 o nodiadau achos yn cofnodi a allai cyflwr clinigol claf effeithio ar ei anghenion o ran maeth.

**17.** Dywedodd staff wardiau wrthym yn ystod ein harchwiliad diweddar nad oedd dogfennaeth nyrsio safonol Cymru gyfan, gan gynnwys ysgogiadau i nodi gwybodaeth benodol am weithgareddau bywyd pob dydd, fel bwyta ac yfed, wedi'i chyflwyno hyd yma. Nid oedd y staff nyrsio yn deall yn glir yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r

sy'n wynebu risg o ddiffyg maeth, neu sy'n ordew. Mae'r adnodd hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyfer cyflwyno cynllun triniaeth effeithiol ac addas.

ddogfennaeth safonol ond dylai hwyluso gwelliannau o ran ansawdd y wybodaeth a gofnodir.

**18.** Mae staff deietig wedi datblygu llwybr awydd isel am fwyd sy'n nodi'r gofal maethol y mae staff nyrsio yn gallu ei ddarparu i gleifion sydd â sgôr MUST o un neu fwy ac nad ydynt â dim cymhlethdodau eraill. Canfu ein hadolygiad o nodiadau achos fod cynlluniau gofal maethol ar waith ar gyfer pob claf a oedd â sgôr MUST o un neu fwy. Fodd bynnag, roedd templedi'r cynllun gofal o ran awydd isel am fwyd yn amrywio rhwng y wardiau y buom yn ymweld â hwy. Canfu ein hadolygiad o nodiadau achos fod cleifion a oedd yn wynebu risg o ran maeth wedi'u hatgyfeirio i gael asesiad deietig a bod lefelau bwyd wedi'u cofnodi ar siartiau bwyd Cymru gyfan yn achos cleifion a oedd yn wynebu risg o ran maeth. Ar un ward y buom yn ymweld â hi, roedd lefelau bwyd yn cael eu cofnodi yn achos pob claf yn annibynnol ar sgôr MUST. Ni wnaethom arsylwi siart hylif Cymru gyfan yn cael ei defnyddio ar y wardiau y buom yn ymweld â hwy. Yn hytrach, roedd staff y wardiau'n defnyddio siartiau hylif yr oeddent wedi'u haddasu ar gyfer eu poblogaeth hwy o gleifion. Dywedwyd wrthym y byddai siartiau hylif Cymru gyfan yn cael eu cyflwyno pan fo 'pentwr stoc' yr hen siartiau wedi dod i ben.

**19.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ystod o ddulliau ar waith i ganfod y cleifion hynny y mae angen cymorth arnynt i fwyta ac yfed. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys systemau goleuadau traffig wrth ochr y gwely sy'n disgrifio lefel y cymorth sydd ei angen, byrddau statws cleifion, taflenni 'rowndiau bwriadol' sydd hefyd yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen, a'r 'ddogfen drosglwyddo'. Mae'r 'ddogfen drosglwyddo' yn cael ei hargraffu ar gyfer staff nyrsio unigol ar ddechrau pob sifft i ganfod y cleifion hynny sy'n wynebu risg arbennig, er enghraifft y rhai y mae angen cymorth arnynt i fwyta ac yfed. Ar rai wardiau, defnyddir y system hambwrdd coch adeg prydau bwyd i nodi'r cleifion hynny y mae angen cymorth arnynt neu'r cleifion y mae angen cofnodi'r hyn y maent yn ei fwyta. Caiff y system hon ei hategu ar rai wardiau gan hysbysiad 'gwiriwch cyn casglu' wrth ochr gwely'r claf i dynnu sylw staff at y ffaith bod angen cofnodi'r hyn y mae'r claf yn ei fwyta.

## Mae'r graddau y cydymffurfir â'r llwybr gofal maethol yn cael eu monitro fel mater o drefn ond mae archwiliadau cydymffurfio yn dangos bod lle i wella

**20.** Asesiad maethol cyn pen 24 awr ar ôl derbyn yw un o'r tri metrig gorfodol ar ddangosfwrdd nyrsio a bydwreigiaeth Cymru gyfan. Mae'r graddau y cydymffurfir â'r broses sgrinio maethol yn cael eu monitro'n fisol drwy gynnal archwiliad sy'n cynnwys o leiaf 50 y cant o boblogaeth y cleifion mewnol. Mae'r dangosfwrdd yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd nyrsys is-adrannol ac mae'r Grŵp Llywio Maeth Clinigol yn monitro'r sefyllfa gyffredinol o ran cydymffurfio. Mae data'r Bwrdd Iechyd yn dangos bod y ganran gydymffurfio wedi amrywio o amgylch 90 y cant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n anelu at gyflawni canran gydymffurfio o 95 y cant.

**21.** Mae staff deietig hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i archwilio'r llwybr awydd isel am fwyd ar draws safleoedd ysbytai gan drafod canfyddiadau archwiliadau yng Ngrŵp

Buddiannau Bwyd yr ysbyty perthnasol a'r Grŵp Llywio Maeth Clinigol. Mae'r archwiliad yn asesu'r hyn a ganlyn:

- a yw cleifion yn cael eu sgrinio cyn pen 24 awr ar ôl iddynt gael eu derbyn;
- a yw sgôr MUST yn cael ei chyfrifo;
- a yw cleifion sydd â sgôr MUST o 1 neu fwy yn cael eu gosod ar y llwybr awydd isel am fwyd a'r cynllun gofal cysylltiedig;
- a yw'r hyn y mae cleifion sydd ar y llwybr awydd isel am fwyd yn ei fwyta yn cael ei gofnodi ar siart fwyd Cymru gyfan;
- a gynigir byrbrydau rheolaidd ac atchwanegiadau maethol rhagnodedig i gleifion sydd ar y llwybr awydd isel am fwyd;
- a yw cleifion sydd â sgôr MUST o 1 neu fwy ac sydd â chymhlethdodau clinigol yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad deietig; ac
- a yw'n hawdd nodi pa gleifion sydd ar y llwybr awydd isel am fwyd drwy gyfrwng arwydd neu symbol wrth ochr y gwely neu mewn man arall i rybuddio bod claf yn wynebu risg o ran maeth.

**22.** Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r archwiliadau hyn yn dangos bod cyfrannau is o gleifion â sgôr MUST o'u cymharu â'r gyfradd gydymffurfio a gofnodwyd fel rhan o'r metrigau nyrsio, neu fel rhan o'n hadolygiad o nodiadau achos. Ar un ward, canfu staff deietig fod sgôr MUST wedi'i chofnodi ar gyfer un o bob tri chlaf yn unig tra bo wardiau eraill wedi cydymffurfio'n llwyr. Yn wahanol i'n hadolygiad o nodiadau achos (gweler paragraff 18), canfu staff deietig nad oedd cleifion a oedd â sgôr MUST o un neu fwy bob amser ar y llwybr awydd isel am fwyd, ac nad oedd ganddynt ychwaith gynllun gofal awydd isel am fwyd. Nid oedd pob claf a oedd â sgôr MUST o un neu fwy a chymhlethdodau clinigol yn cael ei atgyfeirio at y deietegydd.

**23.** Yn 2010, nid oedd dim rhaglenni hyfforddi rheolaidd neu hyfforddiant diweddaru i staff nyrsio'r wardiau er mwyn iddynt gynnal eu gwybodaeth am ddefnyddio'r dulliau sgrinio maethol a'r ddogfennaeth asesu. Ym mis Medi 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru becyn hyfforddiant e-ddysgu ynghylch defnyddio llwybr gofal maethol Cymru gyfan a siartiau bwyd a hylif Cymru gyfan. Roedd gofyn i'r holl staff nyrsio a oedd yn gweithio ar wardiau gwblhau'r pecyn hyfforddi e-ddysgu cyn pen 12 mis o'r dyddiad hwn, a dylai staff newydd ei gwblhau cyn pen 12 mis wedi iddynt gael eu penodi.

**24.** Ym mis Gorffennaf 2014, cafodd y modiwlau e-ddysgu ynghylch y broses sgrinio maethol a'r siartiau bwyd a hylif eu gosod ar lwyfan newydd ar y we. Nododd y Bwrdd Iechyd nad oes ganddo fynediad mwyach at wybodaeth am nifer y staff a oedd wedi cwblhau'r modiwlau hyn cyn mis Gorffennaf 2014, sy'n ei gwneud yn anodd monitro nifer y staff sydd i'w hyfforddi o hyd, ac i gyflwyno adroddiadau ar y sefyllfa gyffredinol o ran cydymffurfio. Mae data diweddar yn dangos bod 445 o staff wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu ynghylch y broses sgrinio maethol a'r siart bwyd, a bod 40 o staff wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu ynghylch y siart hylif, rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Gorffennaf 2015. Mae staff uwch-nyrsio yn nodi ei bod yn anodd cael mynediad at y llwyfan e-ddysgu a bod y safle yn anodd ei ddefnyddio. Nododd eraill nad oedd bob amser yn bosibl cwblhau'r hyfforddiant yn ddi-dor, a hynny oherwydd yr amser sydd ei angen i'w gwblhau.

**25.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant o ran helpu i wella'r graddau y cydymffurfir â'r llwybr gofal maethol. Mae'n rhoi cynlluniau ar waith i wella'r sefyllfa gyffredinol o ran cydymffurfio â'r modiwlau e-ddysgu, a'r nyrsys is-adrannol sy'n arwain y gwaith hwn. Ar un ward y buom yn ymweld â hi, nododd rheolwr y ward y byddai staff nyrsio'n gweithio gyda chydweithwyr deietig i ddatblygu hyfforddiant pwrpasol ar faeth pe bai angen gwneud hynny. Ar y ward hon, roedd staff deietig wedi creu bwrdd gwybodaeth a oedd â chyngor ar ddeiet a maeth i gleifion, ac roeddent yn ei gynnal; roedd y bwrdd hefyd yn adnodd dysgu i'r staff nyrsio.

**26.** Yn 2010, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys maeth sylfaenol yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff arlwyo ar y ward er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd a'r angen i ddilyn gweithdrefnau'r ward. Canfu ein harchwiliad diweddar fod gwybodaeth am faeth da wedi'i rhoi i staff arlwyo sy'n gweithio ar y ward, ac yn fwy diweddar roedd cyfran uchel o'r staff hyn wedi'u hyfforddi ynghylch deddfwriaeth ar alergenau hyd at lefel sy'n gymesur â'u swydd.

## Mae eitemau'r fwydlen yn cael eu hasesu o ran eu maeth drwy fframwaith bwydlenni Cymru gyfan ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gydymffurfio'n llwyr

**27.** Yn 2010, roedd deietegwyr yn rhan o'r gwaith o gynllunio bwydlenni ym mhob ysbyty ond nid oedd holl fwydlenni'r ysbytai wedi cael eu hasesu o ran eu maeth. Ar y pryd, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd asesu pob eitem ar y fwydlen o ran ei maeth cyn rhoi newidiadau i'r fwydlen ar waith. Wedi hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan, sy'n pennu'r 12 maetholyn sylfaenol i'w dadansoddi. Ym mis Ionawr 2013, lansiwyd fframwaith bwydlenni Cymru gyfan i ategu'r gwaith o weithredu'r safonau hyn.

**28.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag sicrhau y bydd yn cydymffurfio'n llwyr â fframwaith bwydlenni Cymru gyfan erbyn mis Mawrth 2016. Pan gynhaliwyd ein gwaith maes, roedd yn cydymffurfio yn achos pob rysáit ar gyfer cawl ac 84 y cant o ryseitiau'r prif gwrs. Roedd angen gwneud rhagor o waith i gynyddu'r graddau y cydymffurfir â ryseitiau pwdinau, ac roedd y Bwrdd Iechyd yn anelu at gynyddu'r ganran gydymffurfio o 48 y cant i 90 y cant erbyn yr hydref yn 2015. Hefyd, priodolir codau i brydau yng nghyswllt y 14 o alergenau y mae'n rhaid eu cynnwys ar labeli bwyd fel rhan o'r Rheoliad ynghylch Gwybodaeth am Fwyd.

**29.** Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cyfrannu at grŵp cynghori ar nwyddau Cymru gyfan, gan weithio gyda'r deietegydd caffael a leolir ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i sicrhau bod cyflenwyr bwyd yn darparu gwybodaeth am faeth eu cynhyrchion, er mwyn asesu'r graddau y cydymffurfir â'r safonau maeth.

## Mae cleifion yn gallu cael gafael ar fwyd a diodydd 24 awr o'r dydd ac mae'r graddau y cydymffurfir yn cael eu monitro'n rheolaidd

**30.** Yn 2010, gwnaethom ganfod bod gan fwyafrif yr ysbytai drefniadau ar waith i ddarparu byrbrydau ond nododd nifer o gleifion nad oedd byrbrydau ar gael rhwng prydau. Mae

Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan yn nodi y dylid cynnig byrbrydau rhwng dwywaith a thair gwaith y dydd. Dylid cynnig byrbrydau gyda'r nos i bob claf oherwydd y bwlch hir rhwng y pryd gyda'r nos a brecwast.

**31.** Yn y Bwrdd Iechyd, mae byrbrydau ar gael rhwng prydau ac i gleifion sy'n methu pryd. Mae prif fwydydd fel bara, grawnfwyd a llaeth yn cael eu cadw yng ngheginau'r wardiau. Dywedodd y staff nyrsio ar y wardiau y buom yn ymweld â hwy y gallent wneud cais am gyfres gyfyngedig o fyrbrydau (iogwrt, caws a bisgedi, a chacen) gan ddefnyddio ffurflen bwrpasol. Roedd yn rhaid i eitemau bwyd eraill gael eu hawdurdodi gan ddeietegydd. Mae byrbrydau'n cael eu dosbarthu i'r ward gyda'r troli bwyd ac maent yn cael eu cadw ar loceri cleifion. Os yw'r eitem fwyd yn un ddarfodus, bydd yn cael ei chadw yn oergell cegin y ward. Yn Ysbyty Nevill Hall, nid oedd pob cegin yn darparu dull cadw diogel fel y gellid cadw cyfanswm mwy o fyrbrydau'n ddiogel. Mae rhaglen o waith yn mynd rhagddi i ailwampio ceginau wardiau.

**32.** Nododd staff deietig fod systemau gwahanol ar gyfer archebu byrbrydau ar waith ar draws safleoedd ysbytai. Fodd bynnag, nid yw wardiau'n archebu cyfanswm y byrbrydau y byddent yn ei ddisgwyl, o ystyried bod y cynllun gofal ynghylch awydd isel am fwyd yn cynnwys ysgogiad yn hyn o beth. Byddai staff deietig bob amser yn hoffi cynnig byrbrydau i gleifion rhwng prydau a chofnodi pan fo cleifion yn gwrthod y cynnig. Pan gynhaliwyd ein harchwiliad maes, roedd Ysbyty Gwynllyw yn treialu system fyrbrydau newydd tra bo Ysbyty Ystrad Fawr wedi gweithredu system fyrbrydau lwyddiannus ers 2014, gan gynnig byrbrydau bob amser i 84 y cant o'r cleifion.

**33.** Mae adnodd archwilio'r Bwrdd Iechyd ynghylch maeth, arlwyo ac ansawdd bwyd yn asesu a yw staff yn cynnig byrbryd i gleifion pan fo'n amser gwely a thrwy gydol y dydd. Canfu archwiliadau'r Bwrdd Iechyd fod sefyllfa dda o ran cydymffurfio â'r drefn, gan adlewyrchu archwiliad Hanfodion Gofal 2014, a ganfu bod 93 y cant o ardaloedd wardiau'n cydymffurfio â'r drefn o ddarparu 'amrywiaeth o fyrbrydau [...] i gleifion sydd wedi colli pryd o fwyd neu sy'n llwglyd rhwng prydau bwyd'. Nododd mwyafrif y cleifion (91 y cant) eu bod 'bob amser' neu 'fel arfer' yn cael bwyd a byrbrydau maethlon.

**34.** Mae'r safonau ynghylch bwyd a hylif cleifion yn nodi y dylid cynnal rhwng saith ac wyth o rowndiau diodydd poeth ac oer bob dydd ac y dylid newid dŵr mewn jygiau deirgwaith y dydd. Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014 fod dŵr yfed bob amser ar gael ac o fewn cyrraedd i gleifion, ond nid oedd pob ward (82 y cant) yn cyflawni saith o rowndiau diodydd neu ragor neu'n ail-lenwi jygiau dŵr deirgwaith y dydd (75 y cant). Canfu'r archwiliadau amlddisgyblaethol ynghylch maeth, arlwyo ac ansawdd bwyd hefyd mai dim ond pum ysbyty a oedd yn ail-lenwi jygiau dŵr deirgwaith y dydd. Yn ystod ein hymweliadau â'r wardiau, dywedodd rheolwyr wardiau a staff arlwyo ar wardiau wrthym ei bod yn heriol darparu rhwng saith ac wyth o ddiodydd bob dydd ac, fel rheol, fod jygiau dŵr yn cael eu newid ddwywaith y dydd.

**35.** Yn y cyfamser, roedd cynllun 'gwydraid llawn' wedi'i gyflwyno ar un ward i wella lefelau hydradu ymhlith cleifion y ward. Defnyddir symbol gwydr yfed i nodi'r cleifion hynny sy'n wynebu risg o ddiffyg hylif ac y mae angen cymorth arnynt i yfed hylifau. Mae'r symbol gwydr yfed wrth ochr gwely'r claf yn dangos i ymwelwyr a staff fod angen mwy

o anogaeth a chymorth ar y claf hwnnw. Pan wnaethom gynnal ein gwaith archwilio, roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio i gyflwyno'r cynllun yn ehangach.

## Mae gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion am yr hyn y dylent ei ddisgwyl yn yr ysbyty ar gael ond nid yw'n cael ei dosbarthu'n eang

**36.** Nododd safonau Maeth ac Arlwyo Cymru gyfan 2011 yn glir y dylid darparu gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr am yr hyn y dylent ei ddisgwyl o ran prydau a byrbrydau tra bônt yn yr ysbyty. Yn 2012, cyhoeddodd y Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru lythyr ar y cyd ynghylch arlwyo a chyflenwadau bwyd mewn ysbytai, gan ofyn i gyrff y GIG sicrhau bod cleifion yn cael y wybodaeth a nodwyd yn nhaflen yr Archwilydd Cyffredinol **Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty - Yr Hyn y Dylech ei Ddisgwyl**. Er bod y daflen hon ar gael ar fewnrwyd y Bwrdd Iechyd pan wnaethom gynnal ein harchwiliad dilynol, ynghyd â chanllawiau ar gyfer cleifion ac ymwelwyr ynglŷn â dod â bwyd i'r ysbyty, nid oedd ymwybyddiaeth eang o'r rhain. Pan wnaethom gynnal ein gwaith maes, roedd yr adran ddeietig yn datblygu ei gwefan i'r cyhoedd er mwyn ei gwella o ran hygyrchedd. Mae'r wefan yn fyw erbyn hyn ac mae'r taflenni hyn ar gael i'r cyhoedd.

**37.** Mae polisi'r Bwrdd Iechyd ynghylch Amser Bwyd a Ddiogelir yn cynnwys taflen wybodaeth ddefnyddiol i gleifion ynglŷn ag amser bwyd a ddiogelir a'r cyfnod tawel, sef y cyfnod pwrpasol ar gyfer gorffwys ar ôl cinio. Mae'r daflen hon yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl yng nghyswllt amgylchedd y ward a'r gwaith paratoi i'w helpu cyn amser bwyd ac yn ystod amser bwyd. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg o'n hymweliadau â'r wardiau fod y daflen hon yn cael ei defnyddio fel mater o drefn, ac nid oedd staff y wardiau'n ymwybodol ohoni. Gwnaethom arsylwi er hynny fyrddau gwybodaeth â chyngor ar ddeiet a maeth i gleifion ar un ward (gweler paragraff 25). Ers inni gynnal ein harchwiliad maes, mae'r Grŵp Llywio Maeth Clinigol wedi cytuno i arddangos y daflen hon ar fyrddau gwybodaeth wardiau neu i ddarparu copïau laminedig wrth ochr gwely'r claf.

**38.** Mae staff deietig wedi datblygu taflen ynghylch awydd isel am fwyd er mwyn darparu syniadau ac awgrymiadau ymarferol ynglŷn â sut i sicrhau y rhoddir maeth ychwanegol i gleifion sydd â sgôr MUST o un neu fwy ac ar gyfer y cleifion hynny sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Cyfeiriodd staff y wardiau at y daflen hon, y gwnaethant ei lawrlwytho i gleifion o fewnrwyd y Bwrdd Iechyd.

## Mae lle i wella rhai agweddau ar y profiad a geir adeg prydau bwyd

**39.** Yn 2010, roedd mwyafrif yr ysbytai ledled Cymru yn darparu dewis priodol o brydau ac roedd cleifion yn fodlon yn gyffredinol â'r bwyd yr oeddent yn ei gael. Fodd bynnag, nid oedd pob claf yn cael y cymorth yr oedd ei angen arno adeg prydau bwyd a gellid gwneud rhagor i wreiddio egwyddorion amser bwyd a ddiogelir. Yn Ysbyty Nevill Hall bryd hynny, gwnaethom ganfod nad oedd y system archebu prydau wedi'i datblygu cystal â system Ysbyty Brenhinol Gwent. Golygai hyn nad oedd cleifion yn Ysbyty Nevill Hall bob amser yn cael y pryd yr oeddent wedi'i ddewis na'r dogn o fwyd y gofynnwyd amdano. Gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd wella dulliau wardiau ac adrannau arlwyo yn Ysbyty Nevill Hall o gyfathrebu â'i gilydd er mwyn i gleifion gael y pryd sy'n gywir ar gyfer eu hanghenion deietegol.

**40.** Canfu Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol diweddar AGIC, a gynhaliwyd ar nifer o wardiau yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall, hefyd nifer o faterion yng nghyswllt amser bwyd. Yn arbennig, nid oedd cyfleoedd yn cael eu cynnig bob amser i gleifion olchi eu dwylo ac roedd sefyllfa wael o ran cydymffurfio ag egwyddor amser bwyd a ddiogelir. Nid oedd niferoedd digonol o brydau'n cael eu darparu, ac roedd rhai cleifion nad oeddent yn cael y pryd yr oeddent wedi'i archebu, neu a oedd yn gorfod aros am bryd arall.

### Mae cleifion yn gadarnhaol yn gyffredinol ynghylch gwasanaethau bwyd

**41.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu cylch bwydlenni sy'n para pythefnos. Mae'r fwydlen safonol yn diwallu anghenion mwyafrif y cleifion mewnol gan gynnig dewisiadau â llawer o egni i'r rhai sydd ag awydd isel am fwyd, a dewisiadau iachach i'r cleifion hynny sy'n cael eu cynghori i ddilyn ffordd iachach o fyw. Mae dewisiadau'r bwydlenni yn cydymffurfio â Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru gyfan ac mae'r fwydlen yn cynnig dewisiadau ysgafnach ar gyfer pob pryd. Mae gan bob claf gyfle i ddewis o fwydlen ddetholus ddyddiol a gofyn am y dognau bwyd yr hoffent eu cael.

**42.** Mae bwydlenni ar gael hefyd i gleifion sydd â deiet arbennig neu therapiwtig. Mae prydau y mae eu gwead yn cael ei newid ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau llyncu wedi'u haddasu i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau o ran gwead a maeth. Mae'r adran arlwyo wedi cyflwyno bwydlen o fath *à la carte* ar gyfer prydau sydd wedi'u troi'n biwrî gan brynu pob pryd a phwdin o gontract Cymru gyfan. Mae bwydlen bythefnos ar waith yn achos prydau y gellir eu 'stwnsio â fforc', ac mae'r prydau hyn yn cael eu paratoi'n fewnol.

**43.** Mae'r grŵp arlwyo yn adolygu bwydlenni cleifion ac mae unrhyw newidiadau a ystyrir yn cael eu trafod â Phanel y Cleifion, Age Cymru, a'r Cyngor Iechyd Cymuned. Mae Panel y Cleifion a'r Cyngor Iechyd Cymuned hefyd yn aseswyr yn y Rhaglen Monitro Ansawdd Bwyd. Pan wnaethom gynnal ein gwaith maes, roedd grŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan wedi cynnal arolwg â holiadur o gleifion mewnol ar draws pob un o gyrff y GIG ynghylch y dewis o fwyd ac ansawdd y bwyd. Ledled Cymru, 54 y cant oedd cyfradd ymateb yr arolwg, o'i chymharu â 17 y cant yn unig yn y Bwrdd Iechyd. Disgwyliwyd i ddadansoddiad o'r canfyddiadau ddod i law ar ddiwedd yr haf.

**44.** Yn ystod ein hymweliadau â wardiau yn Ysbyty Nevill Hall, roedd cleifion yn awyddus i ddweud wrthym gymaint yr oeddent yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau bwyd a diod ac adroddiad 'Bugwatch' y Cyngor Iechyd Cymuned, a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf ac sy'n cynnwys sylwadau cadarnhaol gan gleifion am fwyd yr ysbyty. Mae nifer cyffredinol y cwynion ffurfiol yn isel iawn a dim ond un gŵyn ffurfiol a gafwyd am y gwasanaeth bwyd yn 2014-15, tra bu pedwar achos o ganmol. Roedd y gŵyn a gafwyd yn nodi bod y bwyd yn oer ac yn anflasus.

## Nid yw pob claf yn cael cymorth prydlon adeg prydau bwyd ac mae rhagor i'w wneud i baratoi amgylchedd y ward cyn gwasanaethau prydau

**45.** Yn 2010, nid oedd pob claf yn cael y cymorth yr oedd ei angen arno adeg prydau bwyd ac yn aml roedd y gwaith o baratoi ar gyfer prydau'n cael ei wneud adeg gweini. Yn y Bwrdd Iechyd, gwnaethom ganfod nad oedd ardaloedd wardiau bob amser wedi'u paratoi'n dda ar gyfer amser bwyd, ac yn Ysbyty Nevill Hall nid oedd staff nyrsio bob amser ar gael i gynorthwyo cleifion adeg prydau bwyd.

**46.** Fel rhan o'n harchwiliad diweddaraf, buom yn ymweld â dwy ward yn Ysbyty Nevill Hall a dwy ward yn Ysbyty Brenhinol Gwent i gwrdd â staff wardiau ac arsylwi'r gwasanaeth prydau amser cinio. Dywedodd staff ward yn Ysbyty Nevill Hall wrthym fod nifer y staff nyrsio wedi cynyddu ers ein harchwiliad yn 2010. Ar ben hynny, roedd amseroedd cychwyn sifftiau ac amseroedd egwyl wedi'u newid i sicrhau nad oedd ymyriad yn ystod amser bwyd a bod staff nyrsio ar gael i gynorthwyo cleifion yn ystod amser bwyd.

**47.** Mae Arddangosyn 2 yn cyflwyno'r gwahaniaethau y gwnaethom eu harsylwi rhwng arferion amser bwyd yn Ysbyty Nevill Hall ac yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Mae ein harsylwadau wedi'u seilio ar y gweithgareddau yr oeddem yn disgwyl i staff ymgymryd â hwy a ph'un a oedd y camau hyn yn cael eu gweithredu yn ar gyfer pob claf, mwyafrif y cleifion, rhai o'r cleifion, neu ddim ohonynt. Mae'r gwahaniaethau amlwg a welwyd yn ymwneud â gwirio tymereddau bwyd oherwydd y modelau gwasanaeth gwahanol sydd ar waith yn y ddau ysbyty. Yn Ysbyty Brenhinol Gwent, cofnododd staff arlwyo ar wardiau dymereddau cyn gweini prydau, yn ystod y broses o'u gweini, ac ar ddiwedd y broses. Yn Ysbyty Nevill Hall, roedd tymereddau bwyd yn cael eu gwirio cyn gadael y brif gegin ond nid oeddent yn cael eu gwirio pan oedd y troli bwyd yn cyrraedd y ward.

Arddangosyn 2: Camau allweddol a gafodd eu harsylwi fel rhan o'r gwasanaeth amser cinio

| Arsylwadau o'r gwasanaeth amser cinio | Ysbyty Nevill Hall | | Ysbyty Brenhinol Gwent | |
|---|---|---|---|---|
| Ward | 1/2 | 4/1 | C5E | B3 |
| Cleifion yn cael cymorth i baratoi ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys mynd i'r toiled, golchi dwylo ac eistedd i fyny neu godi o'r gwely | Pawb | Pawb | Rhai | Pawb |
| Ardaloedd/byrddau ymyl y gwely yn cael eu tacluso cyn gweini prydau bwyd | Pawb | Pawb | Y mwyafrif | Pawb |
| Ardaloedd/byrddau ymyl y gwely yn cael eu clirio o ran gwastraff clinigol | Pawb | Pawb | Y mwyafrif | Pawb |
| Staff arlwyo wardiau yn gwisgo dillad diogelu | Pawb | Pawb | Pawb | Pawb |
| Tymheredd bwyd yn cael ei gofnodi cyn dechrau gweini prydau bwyd | Dim[1] | Dim[1] | Pawb | Pawb |
| Staff nyrsio yn mynd gyda'r staff arlwyo/gwesty sy'n gweithio ar wardiau wrth weini prydau bwyd[2] | Pawb | Pawb | Pawb | Pawb |
| Cleifion y mae angen cymorth arnynt i fwyta yn gallu cael eu nodi'n hawdd | Pawb | Pawb | Pawb | Pawb |
| Prydau bwyd yn cael eu gadael o fewn cyrraedd i gleifion | Pawb | Pawb | Pawb | Pawb |
| Cymorth yn cael ei roi i dorri bwyd yn fân neu agor deunydd pecynnu | Pawb | Pawb | Y mwyafrif | Pawb |
| Cleifion y mae angen cymorth arnynt yn ei gael yn brydlon | Pawb | Pawb | Y mwyafrif | Pawb |
| Staff nyrsio yn goruchwylio ac yn annog cleifion i fwyta drwy gydol yr amser bwyd | Pawb | Pawb | Rhai | Pawb |

[1] Prydau wedi'u hanfon i'r wardiau ar blatiau gan gofnodi'r tymheredd cyn i'r troli bwyd adael y brif gegin.

[2] Yn Ysbyty Nevill Hall, roedd staff gwesty/domestig yn dosbarthu'r hambyrddau bwyd ac yn Ysbyty Brenhinol Gwent roedd staff arlwyo ar wardiau yn rhoi prydau'r cleifion ar blatiau.

Ffynhonnell: Arsylwadau Swyddfa Archwilio Cymru o wasanaethau amser cinio

**48.** Dywedodd staff nyrsio wrthym eu bod yn croesawu teulu a ffrindiau ac yn eu hannog o ran helpu cleifion adeg prydau bwyd, a gwnaethom arsylwi teuluoedd yn helpu yn ystod ein hymweliadau â'r wardiau. Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014 fod nyrs cofrestredig yn cydlynu pob pryd bwyd ar 86 y cant o'r wardiau tra bo'r holl staff nyrsio yn rhan o'r gwaith o weini prydau bwyd ar 95 y cant o'r wardiau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cefnogi dau gynllun gwirfoddoli ar rai o wardiau ysbytai – sef Red Robin a'r cyfeillion adeg prydau bwyd – i gynorthwyo cleifion gyda'u prydau. Gwirfoddolwyr staff yw'r cyfeillion adeg prydau bwyd, sydd wedi'u hyfforddi i gynorthwyo cleifion gyda bwyta ac yfed cyhyd ag nad oes ganddynt anawsterau o ran llyncu neu alergeddau.

**49.** Mae adnodd archwiliadau'r Bwrdd Iechyd ynghylch maeth, arlwyo ac ansawdd bwyd yn asesu'r graddau y cydymffurfir ag arferion hylendid bwyd adeg prydau bwyd, egwyddor amser bwyd a ddiogelir, a'r llwybr gofal maethol. Mae amserlen o archwiliadau bob dau fis wedi'i phennu i sicrhau bod y rhain ar waith ar draws pob ysbyty. Mae tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys staff nyrsio, deietig a chyfleusterau yn asesu'r graddau y cydymffurfir yn ôl rhestr wirio o ffactorau. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn rhoi adborth ar lafar ar unwaith i'r uwch-nyrs sydd ar ddyletswydd.

**50.** Mae'r archwiliadau hyn yn dangos bod y sefyllfa o ran cydymffurfio yn dda iawn yn gyffredinol a bod cleifion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i fwyta. Roedd sefyllfaoedd pan nad oedd ysbytai'n cydymffurfio yn gysylltiedig â'r hyn a ganlyn:

- ni roddwyd bob amser y dewis i gleifion gael golchi eu dwylo cyn bwyta;
- nid oedd byrddau gwelyau ac ardaloedd bwyta bob amser yn lân neu wedi'u clirio cyn gwasanaethau bwyd;
- tarfwyd ar adegau prydau bwyd oherwydd rowndiau meddygol, gwaith glanhau, ymwelwyr, ac yn y blaen;
- nid oedd cleifion bob amser yn cael cytleri a oedd wedi'i addasu neu lestri sy'n addas i bobl â dementia;
- nid oedd tymheredd bwyd bob amser yn cael ei gofnodi ar lefel y ward;
- nid oedd chwiliedyddion tymheredd bwyd bob amser mewn cyflwr addas;
- nid oedd jygiau dŵr bob amser o fewn cyrraedd i gleifion wrth ochr y gwely;
- nid oedd staff nyrsio bob amser yn defnyddio byrddau statws cleifion i dynnu sylw'n weledol at gleifion a oedd yn wynebu risg; ac
- nid oedd y system hambyrddau coch bob amser ar waith.

## Mae egwyddorion amser bwyd a ddiogelir yn cael eu gweithredu i raddau cynyddol ond mae rhai ysbytai nad ydynt yn cydymffurfio'n llwyr hyd yn hyn

**51.** Yn 2010, roedd nifer sylweddol o wardiau yn y Bwrdd Iechyd nad oeddent eto wedi cyflwyno amseroedd bwyd a ddiogelir. Yn aml, roedd gweithgareddau clinigol nad oeddent yn hanfodol a gweithgareddau anghlinigol yn dal yn mynd rhagddynt ar ddechrau amser bwyd. Gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno amseroedd bwyd a ddiogelir ar bob ward a sefydlu trefniadau ar gyfer monitro'r graddau y cydymffurfiwyd â'r drefn, yn ogystal â chanfod a oedd rhaid gwagio biniau gwastraff yn ystod amser bwyd.

**52.** Mae nod amser bwyd a ddiogelir a'r cyfrifoldeb dros ei weithredu wedi'u nodi ym **Mholisi Amser Bwyd a Ddiogelir** y Bwrdd Iechyd. Yn Ysbyty Nevill Hall, roedd arwyddion ym mynedfeydd y wardiau a oedd yn egluro diben amser bwyd a ddiogelir a'r cyfnod tawel, er mwyn annog cleifion i orffwys a hyrwyddo'u hadferiad. Roedd hefyd yn gofyn i staff clinigol a ffrindiau a theuluoedd beidio ag ymweld yn ystod yr oriau hyn. Yn Ysbyty Brenhinol Gwent, nid oedd arwyddion amser bwyd a ddiogelir i'w

gweld ym mynedfa’r ddwy ward y buom yn ymweld â hwy. Roedd gwybodaeth am y cyfnod tawel wedi’i harddangos ar un ward.

**53.** Roedd y pedwar rheolwr ward y gwnaethom gwrdd â hwy yn hyderus bod y drefn o gael amser bwyd a ddiogelir yn gweithio’n dda ac roedd cydweithwyr proffesiynol yn cefnogi’r egwyddorion. Nododd rheolwyr y wardiau mai brecwast oedd y pryd a oedd yn cyflwyno’r her fwyaf o ran gweithredu egwyddorion amser bwyd a ddiogelir, a hynny oherwydd bod rowndiau wardiau’n dechrau’n gynnar. Yn ystod ein hymweliadau â’r wardiau, gwnaethom ganfod ym mwyafrif yr achosion fod y drefn o gael amser bwyd a ddiogelir yn gweithredu’n effeithiol wrth i weithgareddau clinigol nad oeddent yn hanfodol ‘ddirwyn i ben’ pan oedd y troli bwyd yn cyrraedd y ward. Fodd bynnag, ar un ward yn Ysbyty Brenhinol Gwent, parhaodd rownd feddygol y ward, roedd staff nyrsio’n rhoi meddyginiaeth, ac roedd y troli glanhau yn ei gwneud yn anodd symud y troli bwyd yn y coridorau cyfyng. Cyrhaeddodd ymwelydd hefyd hanner ffordd drwy’r gwasanaeth bwyd i helpu claf i siafio’i farf yn hytrach na’i helpu i fwyta. Mae archwiliadau rheolaidd y Bwrdd Iechyd o wasanaethau amser bwyd yn 2014-15 yn dangos nad oedd pob ysbyty’n cydymffurfio’n llwyr â’r drefn o gael amser bwyd a ddiogelir.

## Mae dulliau rheoli costau a systemau TG yn cael eu defnyddio i reoli gwasanaethau arlwyo ac er bod costau’n gymaradwy ar y cyfan, mae costau bwyd y gwasanaeth arlwyo i gleifion yn cynyddu

**54.** Yn 2010, gwnaethom ganfod bod y wybodaeth ariannol am wasanaethau arlwyo yn wael fel rheol, a phan oedd i’w chael ei bod yn dangos amrywiadau mawr o ran costau y tu mewn i sefydliadau’r GIG, a rhyngddynt. Ychydig o ysbytai a oedd yn creu digon i incwm i adennill holl gostau darparu gwasanaethau arlwyo i’r rhai nad ydynt yn gleifion, ac ychydig o gyrff y GIG a oedd â pholisi cytunedig ar gymorthdaliadau. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylid datblygu model clir ar gyfer canfod costau gwasanaethau arlwyo i gleifion ac i’r rhai nad ydynt yn gleifion. Cytunodd cyrff y GIG yng Nghymru ar y cyd yn 2012 i weithredu model newydd ar gyfer gwasanaethau arlwyo, â’r costau wedi’u pennu, fel rhan o’r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS), a ategwyd gan ddiffiniadau diwygiedig o ddata.

**55.** Ar ben hynny, ychydig iawn o gynnydd a oedd wedi’i wneud i weithredu systemau arlwyo ysbytai yn gyfrifiadurol ac roedd mwyafrif y systemau gwybodaeth arlwyo yn dibynnu ar brosesau papur, llaw. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau cyfrifiadurol ac mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau’r GIG wedi datblygu achos busnes amlinellol i gaffael datrysiad cenedlaethol, er nad oes penderfyniad wedi’i wneud yn hyn o beth.

**56.** Roedd cyrff y GIG ar y pryd yn mabwysiadu mesurau i reoli costau gwasanaethau arlwyo. Fodd bynnag, roedd lle i gynyddu’r graddau y defnyddiwyd ryseitiau safonol â’r costau wedi’u pennu, gan gytuno ar lwfansau bwyd a diod i gleifion, safoni contractau arlwyo lleol a lleihau lefelau gwastraff bwyd, a oedd yn annerbyniol o uchel.

Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai sefydliadau'r GIG anelu at sicrhau nad oedd lefel y gwastraff uwchlaw 10 y cant. O ganlyniad, pennodd Llywodraeth Cymru darged gwastraff bwyd o 10 y cant yng nghyswllt prydau na chafodd eu gweini, i'w gyflawni erbyn diwedd 2012-13.


## Mae dulliau rheoli costau a systemau TG yn cael eu defnyddio i reoli'r gwasanaeth ac er bod costau prydau cleifion yn gymaradwy â chyfartaledd Cymru, mae costau bwyd y gwasanaeth arlwyo i gleifion yn cynyddu

**57.** Yn 2010, roedd gan y Bwrdd Iechyd broses sefydledig, ar bapur, o ddewis o fwydlen, ac roedd y wybodaeth yn cael ei chyd-gasglu â llaw drwy gyfrwng system TG Menumark i lunio amserlenni cynhyrchu. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi yn system Menumark i reoli'r broses gynhyrchu ar gyfer cleifion mewnol ac erbyn hyn mae'n treialu defnyddio llechen cyfrifiadurol i gofnodi archebion prydau cleifion. Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo yng ngrŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan, y mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu ato, i sicrhau bod cost pob rysáit yn y gronfa ddata wedi'i chyfrifo. Mae'r Bwrdd Iechyd yn mewnbynnu'r ryseitiau hyn sydd â chostau wedi'u cyfrifo i system Menumark, ynghyd â phrisiau'r nwyddau/cynhwysion, sy'n cael eu diweddaru yn unol â phrisiau contract caffael Cymru gyfan. Mae system Menumark yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gyfrifo cost gyfartalog ddyddiol y prif bryd fesul safle ysbyty.

**58.** Roedd pob bwrdd iechyd yn cydariannu penodiad deietegydd caffael a oedd yn gweithio ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG (y Gwasanaeth Caffael) i ategu'r broses o ddatblygu contractau caffael Cymru gyfan i ganfod cyflenwadau ar gyfer y prydau ar y fframwaith bwydlenni. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG hefyd yn gweithio i symleiddio cynhyrchion a'u safoni, yn ogystal â helpu cyrff y GIG i ddatblygu contractau i ganfod cynhyrchion lleol. Nododd y Bwrdd Iechyd nad yw'n dal dim contractau lleol ar gyfer cynhyrchion bwyd, a bod yr holl gynhyrchion yn cael eu cyflenwi drwy'r contractau Cymru gyfan.

**59.** Pan wnaethom gynnal ein harchwiliad yn 2010, roedd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio lwfans fwyd ddyddiol i gleifion o £3.85. Mae ein harchwiliad diweddaraf yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal y lwfans fwyd ddyddiol hon ar gyfer prydau safonol ac y bu ychwanegiadau bach ar gyfer rhai ysbytai cymunedol a grwpiau cleifion. Mae dadansoddiad o ddata EFPMS ar gyfer 2013-14 yn dangos mai £3.34 oedd y gost gyfartalog fesul pryd claf ar draws ysbytai'r Bwrdd Iechyd, sydd 15 y cant islaw'r lwfans ddyddiol. Mae'r gost fesul pryd claf yn Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Brenhinol Gwent naill ai'n cyfateb i gyfartaledd ysbytai Cymru, neu islaw'r cyfartaledd (Arddangosyn 3).

Arddangosyn 3: Mae’r gost fesul pryd claf yn cymharu’n ffafriol â chyfartaledd ysbytai Cymru




Ffynhonnell: Data atodol 2013-14 ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau’r GIG yng Nghymru

**60.** Ledled Cymru, gostyngodd cyfanswm cost y gwasanaethau arlwyo i gleifion bump y cant rhwng 2011-12 a 2013-14 o’i gymharu â’r cynnydd o 15 y cant a welwyd yn y Bwrdd Iechyd (Arddangosyn 4). Mae’n ymddangos bod y cynnydd hwn yn deillio o’r ffaith bod costau darparu’r gwasanaethau yn cynyddu, gan godi 16 y cant dros y ddwy flynedd ddiwethaf o’u cymharu â chynnydd o saith y cant ledled Cymru. Hefyd, cafwyd cynnydd o un y cant yn nifer y prydau i gleifion y gofynnwyd amdanynt. Er gwaethaf y cynnydd yn y costau sy’n gysylltiedig â darparu’r gwasanaeth a’r ceisiadau am brydau i gleifion yn y Bwrdd Iechyd, dim ond amrywiadau bach a geir yn y gost gyfartalog fesul pryd bwyd claf o flwyddyn i flwyddyn (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 4: Mae costau gwasanaethau arlwyo i gleifion yn cynyddu yn y Bwrdd Iechyd ac yn lleihau ledled Cymru

| Blwyddyn | Cost gwasanaethau arlwyo i gleifion (£ miliynau) | |
|---|---|---|
| | Aneurin Bevan | Cymru |
| 2011-12 | 5.43 | 38.95 |
| 2012-13 | 5.99 | 37.26 |
| 2013-14 | 6.27 | 36.97 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad 2012-13 ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru a data atodol 2013-14

Arddangosyn 5: Ceir amrywiadau bach yn y gost fesul pryd claf

| Blwyddyn | Aneurin Bevan | Cymru |
|---|---|---|
| 2011-12 | £3.23 | £3.34 |
| 2012-13 | £3.22 | £3.26 |
| 2013-14 | £3.34 | £3.29 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad 2012-13 ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru a data atodol 2013-14

## Mae gwastraff bwyd yn cael ei archwilio'n rheolaidd ac mae'r gwastraff islaw'r targed cenedlaethol, ond mae'r gwaith monitro ar lefel y ward yn anghyson

**61.** Yn 2010, nid oedd lefelau'r gwastraff o fwyd na chafodd ei weini yn cael eu monitro'n gyson ar draws ysbytai ac ar rai wardiau cafwyd llawer o wastraff o fwyd na chafodd ei weini. Bryd hynny, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r trefniadau a fodolai eisoes ar gyfer monitro gwastraff bwyd er mwyn canfod arferion a oedd yn cynyddu gwastraff a chael gwybodaeth fwy cywir am y galw am brydau cleifion ar sail y defnydd o welyau.

**62.** Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio diffiniad EFPMS i gyfrifo faint o wastraff a geir o fwyd na chafodd ei weini.[7] Mae'r gwastraff o fwyd na chafodd ei weini yn cael ei fonitro ar draws pob ysbyty fel rhan o'r archwiliadau maeth, arlwyo ac ansawdd bwyd, ond nid yw'r gwastraff ar blatiau (sef bwyd y mae'r cleifion yn ei adael ar blatiau) yn cael ei fonitro. Os yw'n ymddangos bod llawer o wastraff oherwydd bwyd yn cael ei adael ar blatiau pan gynhelir yr archwiliadau maeth, arlwyo ac ansawdd bwyd, bydd y staff yn ceisio canfod y rheswm am hynny. Mae data archwilio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15 yn dangos mai saith y cant oedd lefel y gwastraff a oedd yn


[7] Dyma'r nifer o brydau cleifion nad oedd y cleifion wedi'u cyffwrdd/na chafodd eu gweini ac a oedd ar ôl ar ddiwedd y gwasanaeth bwyd, wedi'i fynegi ar ffurf canran o gyfanswm nifer y prydau a ddarparwyd.

deillio o fwyd na chafodd ei weini, sydd lawer yn is na tharged Llywodraeth Cymru, sef 10 y cant.

**63.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall yn glir fod gan staff cyfleusterau a nyrsio gyfrifoldeb ar y cyd am fonitro gwastraff bwyd a chanfod y rhesymau amdano. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw gwastraff o fwyd na chafodd ei weini yn cael ei gofnodi fel mater o drefn ar ôl pob bryd a gwnaethom arsylwi arferion gwahanol y tu mewn i'r ysbytai y buom yn ymweld â hwy, a rhyngddynt. Dywedodd staff arlwyo sy'n gweithio ar wardiau yn Ysbyty Nevill Hall wrthym nad ydynt yn cofnodi'n rheolaidd y gwastraff o fwyd na chafodd ei weini; ar adeg ein hymweliad, dim ond un pryd o'r 53 y gofynnwyd amdanynt yn Ysbyty Nevill Hall na chafodd ei weini. Yn Ysbyty Brenhinol Gwent, ar un ward dywedodd staff arlwyo a oedd yn gweithio ar wardiau wrthym nad oeddent yn cofnodi'n rheolaidd y gwastraff o fwyd na chafodd ei weini, ac ar yr ail ward roedd y goruchwyliwr cyfleusterau'n cofnodi'r gwastraff o fwyd na chafodd ei weini.

**64.** Er bod y gwastraff o fwyd na chafodd ei weini islaw'r targed cenedlaethol, roedd cost gwastraff bwyd ar ffurf cyfran o gyfanswm y costau arlwyo yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall yn uwch na chyfartaledd ysbytai Cymru (Arddangosyn 6). Mae data EFPMS yn dangos mai cost prydau bwyd na chafodd eu gweini oedd £211,000 yn y Bwrdd Iechyd yn 2013-14, neu ddau y cant o gyfanswm y costau arlwyo.

Arddangosyn 6: Mae cost gwastraff bwyd yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall yn uwch na chyfartaledd ysbytai Cymru




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata atodol 2013-14 ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru

## Mae gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn creu colled fach; mae'r bwlch rhwng incwm a chostau yn lleihau ac mae ymhlith y rhai lleiaf yng Nghymru

**65.** Yn 2010, roedd y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i beidio â rhoi cymhorthdal i wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion, ond nid oedd ganddo fframwaith polisi clir. Roedd yr adran arlwyo wedi buddsoddi mewn technoleg man gwerthu electronig ar gyfer rheoli ei weithgareddau o ran bwytai. Roedd polisi clir ar brisiau ac roedd prisiau wedi'u safoni ar draws pob ysbyty. Y bwyty yn Ysbyty Brenhinol Gwent oedd yr unig un yn yr ysbytai bryd hynny a oedd yn creu elw. Ar y pryd, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno polisi clir ar gymorthdaliadau er mwyn pennu'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion.

**66.** Mae Safonau Maeth ac Arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn ei gwneud yn glir y bydd y Bwrdd Iechyd yn asesu'r rhagamcan o ran y cymhorthdal sydd ei angen, ac yn cytuno arno, pan nad yw cyfanswm y busnes yn ddigon i dalu costau gweithredu gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion. Mae pob un o allfeydd gwerthu y gwasanaeth arlwyo wedi'i chysylltu â'r rhwydwaith TG drwy gofnodion arian Man Gwerthu Electronig, sydd wedi'u rhaglennu i gynnwys costau'r cynhwysion/y ryseitiau ac sydd wedi'u cysylltu â system Menumark. Mae gwastraff bwyd yn cael ei gofnodi a'i gynnwys yng nghyfanswm y gost. Mae ffigurau masnachu misol yn cael eu darparu i fonitro incwm a gwariant yn achos pob gwasanaeth arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion.

**67.** Ni fu'r incwm a gafodd ei greu gan wasanaethau arlwyo'r Bwrdd Iechyd i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn ddigon i adennill costau gweithredu, ond bu'r bwlch yn lleihau bob blwyddyn ers 2011-12 (Arddangosyn 7). Yn 2013-14, roedd cyfanswm yr incwm a gafodd ei greu yn ddigon i adennill 90 y cant o'r costau o £2.75 miliwn, sef cymhorthdal o tua £280,000. Nid yw'r gwasanaethau arlwyo yn ysbytai cymunedol y Bwrdd Iechyd i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn creu elw, o'u cymharu â'r gwasanaeth yn Ysbyty Brenhinol Gwent, a wnaeth elw bach o £1,200. Adenillodd y gwasanaeth yn Ysbyty Nevill Hall 99 y cant o'i gostau, gan greu colled o £7,500. Ledled Cymru, ni wnaeth yr un o sefydliadau'r GIG adennill y gost o wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn 2013-14, ond mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gymharol well na pherfformiad eraill (Arddangosyn 8).


Arddangosyn 7: Mae'r bwlch rhwng incwm a chostau gwasanaeth arlwyo'r Bwrdd Iechyd i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn lleihau

| Blwyddyn | Cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion | Yr incwm a gyflawnwyd | Canran y bwlch rhwng costau ac incwm |
|---|---|---|---|
| | (£ miliynau) | | % |
| 2011-12 | 2.81 | 2.25 | -20 |
| 2012-13 | 2.92 | 2.37 | -19 |
| 2013-14 | 2.75[1] | 2.47 | -10 |

[1] Mae'r ffigur yn cynnwys costau llogi peiriannau gwerthu

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad 2012-13 ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru a data atodol 2013-14

Arddangosyn 8: Yn 2013-14, roedd gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn creu colled ledled Cymru ac roedd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gymharol well na pherfformiad mwyafrif cyrff eraill y GIG




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata atodol 2013-14 ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru

## Mae’r trefniadau ynghylch gwaith monitro a throsolwg gweithredol yn gadarn ond mae angen cryfhau’r dull o gyflwyno adroddiadau i’r bwrdd ar sicrwydd

**68.** Yn 2010, nid oedd strategaethau a chynlluniau cyfoes ar gyfer gweithredu polisïau cenedlaethol ynghylch arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai i’w cael yn gyson, ac yn nifer o gyrff y GIG roedd angen cysoni trefniadau yn dilyn y broses o adrefnu’r GIG yn 2009. Roedd angen dull gweithredu mwy cynhwysfawr a chydgysylltiedig ar gyfer ceisio barn cleifion a theuluoedd er mwyn llywio cynlluniau a datblygiadau. Gwybodaeth gyfyngedig a gâi byrddau’r GIG am y broses o ddarparu gwasanaethau arlwyo a pherfformiad y gwasanaethau hynny, ac am faterion yng nghyswllt maeth cleifion. Nid oedd gwybodaeth a oedd yn deillio o’r broses sgrinio maethol yn cael ei chyd-gasglu er mwyn deall maint y broblem a’i heffaith debygol ar wasanaethau. Yn rhai o gyrff y GIG, roedd angen i atebolrwydd gweithredol am arlwyo a maeth fod yn gliriach. Gwnaethom argymell y dylai cyrff y GIG ddatblygu dull mwy cynhwysfawr o gyflwyno adroddiadau am berfformiad i’r Bwrdd, gan ddwyn ynghyd wybodaeth am y llwybr gofal maethol, data am berfformiad o ran costau gwasanaethau, gwybodaeth am wastraff bwyd, ac adborth cleifion.

**69.** Bryd hynny, roedd gan y Bwrdd Iechyd strategaethau cynhwysfawr ynghylch arlwyo a maeth ac roedd trosolwg priodol ar waith drwy gyfrwng y Grŵp Llywio Maeth Clinigol. Er bod llinellau atebolrwydd yn glir, roedd y trefniadau ynghylch adroddiadau’r Bwrdd yn llai clir. Gwnaethom argymell y dylai’r Bwrdd Iechyd ddatblygu ystod o ddangosyddion perfformiad er mwyn gwella’r gwaith craffu a chyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu adborth cleifion.

### Mae’r strwythurau trosolwg a chraffu yng nghyswllt gwasanaethau arlwyo a maeth yn parhau’n gadarn ar lefelau gweithredol ac is-bwyllgor

**70.** Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i gefnogi dull amlddisgyblaethol o ddiwallu anghenion cleifion o ran maeth a hydradu. Mae cyfrifoldebau’r cyfarwyddwr gweithredol wedi’u diffinio’n dda o hyd ac mae’r cyfrifoldeb yn cael ei rannu gan y Cyfarwyddwr Nyrsio (yn achos bwydo cleifion a safonau a gofal maethol) a’r Prif Swyddog Gweithredol (yn achos rheolaeth weithredol ar yr holl staff).

**71.** Ym mis Tachwedd 2010, dirprwyodd y Pwyllgor Archwilio y cyfrifoldeb am y gwaith parhaus o fonitro cynnydd yn ôl yr argymhellion yn ein hadroddiad lleol, a’r adroddiad cenedlaethol dilynol, i’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion.
Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn dangos bod y Pwyllgor wedi monitro cynnydd yn rheolaidd a’i fod wedi ceisio’r wybodaeth ddiweddaraf gan swyddogion cyfrifol, yn arbennig am y camau a gymerwyd i gynorthwyo cleifion adeg prydau bwyd.

**72.** Mae’r Grŵp Llywio Maeth Clinigol, y mae’r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio yn ei gadeirio, ag aelodaeth eang o uwch-staff o ddisgyblaethau perthnasol ac mae’n cynnwys aelod o’r Cyngor Iechyd Cymuned lleol. Mae gan y Grŵp Llywio Maeth

Clinigol raglen eang o waith ac mae'n parhau i ddarparu sicrwydd a throsolwg o ran cydymffurfio â Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru gyfan, y safon iechyd a gofal sy'n gysylltiedig â maeth[8], fframwaith bwydlenni Cymru gyfan a'r llwybr gofal maethol. Mae hefyd yn adolygu archwiliadau amlddisgyblaethol ynghylch amser bwyd ac adborth cleifion gan sicrhau bod cleifion a'u cynrychiolwyr yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso'r gwasanaeth maeth ac arlwyo. Bu hefyd yn monitro'r cynnydd yn ôl argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Grŵp yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion drwy gyfrwng y Grŵp Gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion ac i'r Grŵp Cydgysylltu Safonau Gwasanaethau Iechyd o ran cydymffurfio â'r safon sy'n ymwneud â maeth.

**73.** Mae'r Grŵp Llywio Maeth Clinigol hefyd yn dylanwadu ar raglen waith y Grwpiau Buddiannau Bwyd, a sefydlwyd nifer o flynyddoedd yn ôl. Mae'r grwpiau amlddisgyblaethol hyn yn cynnwys staff gweithredol perthnasol o'r gwasanaethau arlwyo (cogyddion a goruchwylwyr arlwyo), deietegwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, a staff nyrsio. Mae un Grŵp Buddiannau Bwyd lleol yn cynnwys aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned lleol.

Mae deietegydd cyswllt arlwyo y Bwrdd Iechyd yn aelod o bob Grŵp Buddiannau Bwyd ac mae'n darparu cyswllt cyffredin rhwng pob grŵp. Mae'r Grwpiau Buddiannau Bwyd yn trafod themâu cyffredin, fel y sefyllfa o ran cydymffurfio â'r llwybr gofal maethol, archwiliadau ynghylch amser bwyd, adborth cleifion, a gwastraff. Eir i'r afael ag unrhyw faterion yn lleol.

**74.** Mae aelodau'r bwrdd y gwnaethom gwrdd â hwy fel rhan o'r archwiliad yn hyderus fod ei bwyllgorau'n cael gwybodaeth briodol am ofal cleifion. Roedd yn amlwg bod aelodau'n arolygu gwybodaeth am faeth a hydradiad cleifion ac yn ehangach ynghylch safonau Hanfodion Gofal. Roedd aelodau annibynnol hefyd yn cymryd rhan yn ymweliadau 1000 o Fywydau o amgylch ysbytai i arsylwi profiad cleifion, ac roedd rhai o'r aelodau'n cymryd rhan yn hapwiriadau'r Bwrdd Iechyd o ofal cleifion, sy'n debyg i hapwiriadau cenedlaethol 'Ymddiried mewn Gofal'.

## Mae perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd ond nid yw'r dull o gyflwyno adroddiadau i'r bwrdd yn gynhwysfawr ac mae'n dibynnu ar yr Archwiliad Hanfodion Gofal blynyddol

**75.** Nid yw gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth, gan gynnwys adborth cleifion, yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd fel mater o drefn. Yn lle hynny, mae'r Bwrdd yn cael yr hunanasesiad blynyddol yn ôl y safonau iechyd a gofal a'r archwiliad Hanfodion Gofal. Mae hyn yn golygu nad yw'r Bwrdd yn gweld y gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau bod cleifion yn cael gwasanaethau arlwyo a maeth o ansawdd da neu gydymffurfiaeth y sefydliad â Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru gyfan a'r llwybr gofal maethol.

[8] Llywodraeth Cymru, **Safonau Iechyd a Gofal**, Ebrill 2015 (Safon 2.5, 'Maethiad a Hydradiad') a chyn hynny: Llywodraeth Cymru, **Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** (Safon 14, 'Maeth'), Ebrill 2010.

**76.** Mae'r broses o gyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd ar brofiad cleifion o ran arlwyo a maeth hefyd wedi'i chyfyngu i adroddiad archwilio blynyddol Hanfodion Gofal, er bod dulliau ar waith i gofnodi adborth cleifion yn lleol, ac mae'r Grwpiau Buddiannau Bwyd yn mynd i'r afael â phryderon. Mewn dau fwrdd iechyd cyfagos, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, rhoddir gwybod am y sefyllfa o ran cydymffurfio â'r broses sgrinio maethol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae adborth cleifion am fwyd a'u profiadau adeg prydau bwyd hefyd yn cael ei gyflwyno ym mhob un o gyfarfodydd y bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'i adroddiad ar brofiad cleifion.

**77.** Mae perfformiad yn cael ei fonitro a'i gyflwyno mewn adroddiadau yn rheolaidd ar lefel weithredol. Mae'r sefyllfa o ran cydymffurfio â'r broses sgrinio maethol yn cael ei monitro yng nghyfarfodydd nyrsys is-adrannol a chan y Grŵp Llywio Maeth Clinigol (gweler paragraff 20). Mae dangosyddion perfformiad allweddol yng nghyswllt gwasanaethau arlwyo, fel gwastraff, cydymffurfio â safonau hylendid bwyd, ansawdd bwyd, costau dyddiol prydau cleifion, costau cyflenwadau, a nifer y prydau, yn cael eu casglu bob mis.

Rhoddir gwybod am y dangosyddion hyn yn chwarterol ac yn flynyddol i dîm rheoli'r is-adran gyfleusterau. Mae data cymharol ynghylch costau arlwyo ar draws ysbytai Cymru, sy'n deillio o'r EFPMS, hefyd yn cael eu cyflwyno yn adroddiadau blynyddol yr is-adran gyfleusterau. Mae canfyddiadau'r archwiliadau amlddisgyblaethol ynghylch maeth, arlwyo ac ansawdd bwyd yn cael eu cyflwyno bob dau fis i dimau rheoli'r gwasanaethau arlwyo a chyfleusterau, yn chwarterol i'r Grŵp Llywio Maeth Clinigol, ac yn flynyddol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion.

**78.** Fel yn achos cyrff eraill y GIG, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi mynd ati'n rheolaidd hyd yn hyn i gyd-gasglu gwybodaeth o brosesau sgrinio maethol i ganfod nifer y cleifion y nodir bod ganddynt broblemau maethol pan fônt yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Nododd y Bwrdd Iechyd nad yw'r system genedlaethol i gasglu metrigau ar gyfer dangosfwrdd nyrsio a bydwreigiaeth Cymru gyfan yn caniatáu trosolwg lefel uchel hyd yma o'r gwahanol lefelau o risg, a bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wrthi'n gweithio i ddatblygu datrysiad.

# Atodiad 1

## Dull archwilio

Nod yr archwiliad oedd ateb y cwestiwn: 'A yw'r [Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd] wedi llwyddo i weithredu argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn llawn o ran sicrhau gwelliannau i ddiwallu anghenion maethol cleifion a'u profiad amser bwyd, rheoli costau arlwyo a chynllunio a monitro?' Gwnaethom gynnal nifer o weithgareddau archwilio rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015 i ateb y cwestiwn hwn. Rhoddir manylion y rhain isod.

### Cyfweliadau ac adolygu dogfennau

Gwnaethom gynnal nifer o gyfweliadau ag unigolion allweddol yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys swyddogion, Aelod Annibynnol, a rheolwyr wardiau. Hefyd, buom yn adolygu nifer o ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau gan sefydliadau allanol perthnasol ac ymateb y Bwrdd Iechyd i'r adroddiadau hyn.

### Dadansoddi data

Gwnaethom ddadansoddi data EFPMS ar gyfer 2012-13 a 2013-14, sef y mwyaf cyfredol. Cyflwynodd cyrff y GIG ddata 2014-15 i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Ystadau Arbenigol ddiwedd mis Mehefin. Bydd y data hyn ar gael ddiwedd mis Tachwedd 2015.

### Arsylwi wardiau

Gwnaethom arsylwi gwasanaeth amser cinio pedair ward, a ddewiswyd gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Profiad Cleifion a Diogelwch, er mwyn asesu'r canlynol:

- a oedd cleifion ac amgylchedd y ward yn barod am amser bwyd;
- a oedd cleifion yn cael y pryd bwyd cywir;
- a oedd cleifion yn cael cymorth i fwyta os oedd angen; ac
- a gydymffurfiwyd ag amseroedd bwyd a ddiogelir.

Buom yn ymweld â wardiau 4/1 a 1/2 yn Ysbyty Nevill Hall a wardiau C5E a B3 yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

### Adolygu nodiadau achos

Gwnaethom adolygu nodiadau achos ar bob ward lle y buom yn arsylwi'r gwasanaeth amser cinio er mwyn asesu'r canlynol:

- a gynhelir y broses sgrinio maethol gan ddefnyddio adnodd sgrinio wedi'i ddilysu pan dderbynnir cleifion i'r ysbyty;
- a gofnodwyd gwybodaeth am bwysau, taldra, mynegai crynswth corfforol (BMI), colli pwysau'n anfwriadol yn ddiweddar, awydd am fwyd, lefelau deietegol 'normal', gofynion deietegol arbennig, y gallu i fwyta'n annibynnol, anawsterau bwyta neu yfed a phroblemau gydag iechyd a hylendid y geg, gan gynnwys deintiad; ac

- a roddwyd cynlluniau gofal ar waith ar gyfer y cleifion hynny y nodwyd bod ganddynt broblemau maethol, neu eu bod yn wynebu risg o hynny, a ph'un a gafodd y cleifion y nodwyd eu bod yn wynebu risg eu hatgyfeirio i gael asesiad deietig.

Cafodd y pum set o nodiadau achos a adolygwyd ar bob ward eu dethol gan reolwyr y wardiau.

# Atodiad 2

## Argymhellion cenedlaethol a lleol

Mae Tabl 1 yn cyflwyno'r 16 o argymhellion lleol a gyflwynwyd yn ein hadroddiad a oedd yn crynhoi'r canfyddiadau ynghylch gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn y Bwrdd Iechyd yn 2010. Mae statws pob argymhelliad[9] hefyd wedi'i nodi yn Nhablau 1 a 2.

Tabl 1 – Argymhellion lleol 2010

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Trefniadau rheoli a chynllunio strategol** | | |
| A1 | Gwella trefniadau craffu y Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro risgiau a pherfformiad y gwasanaeth arlwyo. | C |
| A2 | Datblygu amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad sy'n monitro risgiau'r prif wasanaeth fel gwastraff bwyd, cydymffurfio ag amser bwyd wedi'i ddiogelu, materion diogelwch bwyd a pherfformiad ariannol. | C |
| A3 | Dylid cynnal asesiad maethol o bob eitem ar y fwydlen ynghyd ag unrhyw newidiadau iddi cyn eu gweithredu. | C |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | | |
| A4 | Gwella prosesau archebu prydau bwyd YNH [Ysbyty Nevill Hall] er mwyn sicrhau bod y claf yn cael ei adnabod yn glir a bod archebion y wardiau yn adlewyrchu gwir ofynion y claf. | C |
| A5 | Yn YNH, cyflwyno dewis o ran maint dognau ar ffurflen ddewisiadau'r fwydlen bresennol a newid arferion arlwyo presennol i fodloni'r dewis hwn. | C |
| A6 | Cryfhau trefniadau monitro gwastraffu presennol er mwyn nodi arferion sy'n cynyddu gwastraff. | C |
| A7 | Cyflwyno polisi clir ar gymhorthdal i bennu'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. | C |

[9] Mae (C) yn dynodi bod yr argymhelliad wedi ei gyflawni, mae (A) yn dynodi bod yr argymhelliad ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni ond nad yw wedi'i gwblhau eto, ac mae (N) yn dynodi na wnaed digon o gynnydd, os o gwbl.

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Cyflenwi i'r ward** | | |
| A8 | Yn YNH, sefydlu a all data sefyllfa'r gwelyau nodi'r galw'n fwy cywir a lleihau gwastraff diangen. | C |
| A9 | Cynnwys maeth sylfaenol yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff arlwyo ar y ward er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd a'r angen i ddilyn gweithdrefnau'r ward. | C |
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad** | | |
| A10 | Cyflwyno amserau bwyd wedi'u diogelu ar bob ward lle byddai hynny'n briodol a sefydlu trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. | A |
| A11 | Sefydlu a yw trefniadau sifft y gwasanaeth domestig cyfredol yn effeithio ar amser bwyd wedi'i ddiogelu trwy ei wneud yn ofynnol i wacáu biniau gwastraff rhwng 12.00 a 13.00. | C |
| A12 | Sefydlu trefniadau monitro sy'n mesur cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maeth, ynghyd ag effeithiolrwydd y broses o adolygu siartiau. | C |
| A13 | Yn YNH, gwella'r broses gyfathrebu rhwng y ward a'r adrannau arlwyo er mwyn sicrhau bod cleifion bob amser yn derbyn y pryd bwyd cywir ar gyfer eu hanghenion deietegol. | C |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth** | | |
| A14 | Cyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am reoli maeth rhwng staff nyrsio, deietig ac arlwyo. | C |
| A15 | Cynnwys cleifion yn llwyr wrth ddatblygu'r gwasanaeth arlwyo. | C |
| A16 | Datblygu'r model a sefydlwyd yn YBG [Ysbyty Brenhinol Gwent], ac fel rhan o'r broses o rymuso rheolwyr wardiau dan drefniadau Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu, cyflwyno fforymau rheolwyr wardiau ac uwch nyrsys effeithiol ledled y Bwrdd Iechyd a'i holl ysbytai. | C |

Mae Tabl 2 yn dangos y 26 o argymhellion cenedlaethol a gyflwynwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2011, a oedd yn berthnasol i gyrff y GIG sy'n darparu gwasanaethau arlwyo i gleifion.

Tabl 2 – Argymhellion cenedlaethol 2011

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu** | | |
| A1b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG ddefnyddio'r canlyniadau a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau archwilio lleol fel sail dros sicrhau eu bod yn gweithredu Llwybr Gofal Maeth Cymru gyfan yn effeithiol; yn benodol mae'n rhaid iddynt sicrhau bod prosesau sgrinio maethol yn nodi'n effeithiol bob claf sydd â phroblemau maeth, neu sy'n wynebu risg o'u datblygu, a bod cynlluniau gofal a gweithgareddau monitro priodol yn cael eu sefydlu. | A |
| A1c | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG archwilio cydymffurfiaeth â phob agwedd ar y llwybr gofal maeth yn rheolaidd ar bob un o'u safleoedd a rhannu canlyniadau'r ymarferion monitro â phob grŵp staff perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion. | C |
| A1d | Lle nodir cydymffurfiaeth wael â gofynion y llwybr gofal maeth, argymhellwn y dylai cyrff y GIG ganfod y rhesymau dros hyn, a rhoi cynlluniau gweithredu clir ar waith i fynd i'r afael â'r broblem; dylai hyn gynnwys rhoi hyfforddiant angenrheidiol i staff. | C |
| A1e | Argymhellwn y dylai fod gan gyrff y GIG drefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd ar gael i gleifion 24 awr y dydd; dylai byrbrydau fod yn rhan o'r trefniadau hyn a dylai cleifion gael gwybod pa fyrbrydau sydd ar gael iddynt, a phryd. | C |
| A2a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG gymryd camau i sicrhau bod pob bwydlen a ddefnyddir yn eu hysbytai wedi cael ei hasesu o ran maeth gan ddeietegwyr. | C |

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Gwella profiad cleifion o amser bwyd** | | |
| A3a | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn sicrhau bod eu bwydlenni yn cynnig dewis priodol o fwyd a bod y trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd yn cefnogi dewis digonol i gleifion. | C |
| A3b | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu harferion ar lefel ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu helpu i fod yn gyfforddus cyn cael eu bwyd, ac yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn i'r pryd o fwyd gael ei weini. | C |
| A3c | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn parhau i gyflwyno'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu i gymaint o wardiau â phosibl, gan gyfleu ei bwysigrwydd i bob grŵp staff perthnasol sy'n gweithio yn yr ysbyty, ac adolygu cydymffurfiaeth â'r polisi'n rheolaidd. | A |
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | | |
| A4b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, wedi'u hategu gan ddadansoddiad clir o gost a budd o'u cymharu â'r systemau gwybodaeth presennol â llaw. | C |
| A5a | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ryseitiau safonol wedi'u costio. | C |
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | | |
| A5b | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o lwfans bwyd a diod dyddiol i gleifion. | C |
| A5c | Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o gontractau arlwyo lleol safonol ar gyfer yr un cynhyrchion neu gynhyrchion tebyg ym mhob un o'u hysbytai. | C |
| A6a | Argymhellwn y dylid pennu targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwastraff bwyd; fel canllaw dylai sefydliadau'r GIG anelu at sicrhau nad yw gwastraff o brydau bwyd nas gweinwyd yn fwy na 10 y cant. | C |

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | | |
| A6b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG fonitro gwastraff bwyd yn rheolaidd yn unol â chanllawiau clir ar yr hyn sy'n bryd o fwyd heb ei weini, a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i lunio cymariaethau ystyrlon yn lleol ac yn genedlaethol. | C |
| A6c | Argymhellwn y dylai'r gwaith o fonitro gwastraff bwyd gynnwys nodi'r rhesymau dros y gwastraff a welir, a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella systemau a phrosesau sy'n achosi'r gwastraff. | C |
| A6d | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG bwysleisio i'w staff fod rheoli gwastraff bwyd yn gyfrifoldeb ar bawb a dylai staff arlwyo a staff wardiau gydweithio i fynd i'r afael â'r broblem. | C |
| A7a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG bennu polisïau prisio a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill costau o leiaf, neu, os nad ydynt yn gwneud hynny, bod hynny o ganlyniad i bolisi cymorthdalu bwriadol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau. | A |
| A7b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG fonitro incwm a gwariant ar wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn perfformio'n ariannol yn ôl y disgwyl ac nad oes diffygion ariannol annerbyniol. | A |
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | | |
| A8b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt gynlluniau a gweithdrefnau cyfoes sy'n nodi'r trefniadau lleol ar gyfer gweithredu gofynion polisi cenedlaethol a sicrhau bod gwasanaethau arlwyo a maeth, hyd y gellir, wedi'u safoni ar draws sefydliadau'r GIG, yn enwedig lle mae ad-drefnu'r GIG wedi dwyn ynghyd nifer o wahanol fodelau gwasanaeth o dan un sefydliad. | C |

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | | |
| A8c | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau fod cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gweithredol dros arlwyo a maeth wedi'u diffinio'n glir, a lle mae dau neu fwy o gyfarwyddwyr gweithredol yn gyfrifol, dylai fod trefniadau penodol ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig. | C |
| A9c | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ddata'r EFPMS fel ffordd o reoli a monitro eu gwasanaethau arlwyo a maeth. | C |
| A10a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG ddatblygu ffordd fwy cynhwysfawr o gofnodi perfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion i'r Bwrdd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am weithredu'r llwybr gofal maeth a data perfformiad ar gostau gwasanaethau i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, gwastraff bwyd, ac adborth gan gleifion a'u perthnasau; dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai wneud defnydd priodol o ddata meincnodi EFPMS. | N |
| A10b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG goladu gwybodaeth o sgrinio maethol yn systematig am nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth er mwyn deall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwyo a maeth i ddiwallu anghenion y cleifion hyn. | N |
| A11a | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth am farn cleifion ar wasanaethau arlwyo rhwng prif nyrsys a'r gwasanaeth arlwyo. | C |
| A11b | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG dangos sut y maent wedi ystyried barn cleifion wrth ddatblygu eu gwasanaethau arlwyo a maeth. | C |
| A11c | Argymhellwn y dylai cyrff y GIG bennu ffyrdd o gynnwys cleifion mewn gweithgareddau sy'n asesu ansawdd gwasanaethau arlwyo a maeth. | C |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru